

# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel P Gareth Williams  
Dyddiad: Dydd Llun, 13 Mawrth 2023 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 14.00 0300 200 6565  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (14.00)

## 2 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: Adroddiad Blynyddol 2021–22 (14.00 – 15.00) (Tudalennau 1 – 37)

Sir Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Rhian Davies Rees, Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru

### Dogfennau atodol:

LJC(6)–09–23 – Papur 1 – Adroddiad Blynyddol 2021–22

LJC(6)–09–23 – Papur 2 – Nodyn briffio

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 (15.00 – 15.05)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

### 3.1 SL(6)326 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystiriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023

(Tudalennau 38 – 39)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

### Dogfennau atodol:

LJC(6)–09–23 – Papur 3 – Adroddiad drafft



## **4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7**

(15.05 – 15.10)

### **4.1 SL(6)327 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

(Tudalennau 40 – 43)

[Y Cwricwlwm i Gymru – Cod yr Hyn sy'n Bwysig – Datganiadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## **5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(15.10 – 15.15)

### **5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalennau 44 – 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-23 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mawrth 2023

LJC(6)-09-23 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 6 Mawrth 2023

### **5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalennau 48 – 49)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-23 – Papur 7 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Mawrth 2023

LJC(6)-09-23 – Papur 8 – Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Mawrth 2023

**5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 50 – 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 9 Mawrth 2023

**6 Papurau i'w nodi**

(15.15 – 15.20)

**6.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 52 – 57)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 10 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 27 Chwefror 2023

**6.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Lywodraeth y DU: Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)**

(Tudalennau 58 – 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 11 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Lywodraeth y DU, 7 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

**6.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd: Y Bil Amddiffyn rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus**

(Tudalennau 61 – 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 12 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd, 7 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

**6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**

(Tudalennau 63 – 81)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

**6.5 Gohebiaeth gan y Rhwydwaith Rhywedd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalen 82)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 14 – Llythyr gan y Rhwydwaith Rhywedd, 8 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

**6.6 SL(6)325 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 83 – 84)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 15 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Mawrth 2023

**6.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24**

(Tudalennau 85 – 86)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 16 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 8 Mawrth 2023

**6.8 Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: profiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol**

(Tudalen 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)–09–23 – Papur 17 – Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 9 Mawrth 2023

**6.9 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)**

(Tudalennau 88 – 89)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 9 Mawrth 2023 [Saesneg yn unig]

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(15.20)

**8 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: Trafod y dystiolaeth**

(15.20 – 15.35)

**9 Cytundebau rhyngwladol**

(15.35 – 15.45)

(Tudalennau 90 – 92)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-23 – Papur 19 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]



At:

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

26 Ionawr 2023

Annwyl Mr Irranca-Davies


**PEDWERYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU**

Pleser yw cael rhannu fy Mhedwerydd Adroddiad Blynyddol, a'm Hadroddiad Blynyddol olaf. Mae'n ymdrin â'r flwyddyn ariannol 2021/2022 ynghyd â'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2022.

Bu'n anrhydedd cael gwasanaethu fel Llywydd cyntaf Tribiwnlysoedd Cymru, a byddaf yn dilyn datblygiad pellach y system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru gyda diddordeb mawr.

Yn gywir

**SIR WYN WILLIAMS**  
LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU



# **Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Ebrill 2021 – Rhagfyr 2022**

11 Ionawr 2023



**Tribiwnlysoedd Cymru  
Welsh Tribunals**

Llywydd / President

Tudalen y pecyn 2

# Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2	Diweddariadau yn dilyn y Trydydd Adroddiad Blynyddol	5
3	Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru	10
4	Diolchiadau a sylwadau	12



# 1. Cyflwyniad

1.1 Hwn yw fy mhedwerydd Adroddiad Blynyddol, a'm Hadroddiad Blynyddol olaf. Ar 31 Mawrth 2023, byddaf yn ymddeol o rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar ôl ei chyflawni ers mis Gorffennaf 2017. Ar 1 Ebrill 2023 daw Syr Gary Hickenbottom yn Llywydd. Mae'n bleser gennyf nodi fy mod yn cael fy olynu gan gyn-farnwr nodedig yn Llys Apêl Cymru a Lloegr. Rwy'n adnabod Syr Gary yn dda iawn; rydym wedi bod yn gydweithwyr barnwrol ers tua 20 mlynedd. Mae'n ddynamig ac yn arloesol ac mae Cymru yn agos iawn at ei galon.

1.2 Ymdriniodd fy Nhrydydd Adroddiad Blynyddol â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, er na chafodd ei gyhoeddi tan fis Hydref 2021. Rwyf wedi gohirio cyhoeddi fy Mhedwerydd Adroddiad tan adeg fy nyddiad ymddeol yn fwriadol a hynny er mwyn osgoi'r angen i ysgrifennu adroddiad arall eto ar ôl i mi ymddeol. Os bydd unrhyw ddigwyddiad neu benderfyniad o bwys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, rwy'n siŵr y caiff ei nodi ac, os bydd angen, ei drafod yn yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf i'w gyhoeddi gan Syr Gary.

1.3 Yn fy Adroddiad Blynyddol Cyntaf, esboniais mai un o'r dyletswyddau statudol a osodwyd ar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gan Ddeddf Cymru 2017 oedd cynrychioli safbwyntiau aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd). Ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, penderfynais y byddwn yn cyflawni'r ddyletswydd honno drwy baratoi adroddiad blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog a Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol. Gobeithiaf fod fy adroddiadau blynyddol i'r Prif Weinidog a'r Llywydd hyd yma wedi cyflawni'r ddyletswydd honno. Yn ogystal â hynny, gobeithiaf eu bod hefyd wedi cyflawni swyddogaeth lawer ehangach, sef rhoi cyfrif cymharol fanwl a thryloyw o'r ffordd mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi gweithredu dros y pum mlynedd diwethaf.

1.4 Rwy'n siŵr y bydd darllenwyr yr adroddiad hwn yn gyfarwydd â'r tribiwnlysoedd a elwir ar y cyd yn "Tribiwnlysoedd Cymru". Fodd bynnag, er mwyn osgoi amheuaeth, rwyf wedi eu nodi fel y cyfeirir atynt yn Neddf Cymru 2017, fel y'i diwygiwyd, ynghyd â'r acronymau a ddefnyddir yn aml i adnabod pob tribiwnlys.

Mae adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 yn diffinio'r ymadrodd 'Tribiwnlys Cymru' i olygu:

- (a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTA Cymru");
- (b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIM Cymru");
- (c) pwyllgor asesu rhent a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (gan gynnwys tribiwnlys prisio lesdaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl) ("TEP Cymru");
- (d) Tribiwnlys Addysg Cymru ("TAC");
- (e) tribiwnlys a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru: tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau o dan adran 27);
- (f) tribiwnlys y daw ei aelodau o Banel Dyfarnu Cymru ("PDC");
- (g) Tribiwnlys y Gymraeg ("TyG").

1.5 Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â'r rhestr o Dribiwnlysoedd Cymru yn sylweddoli nad yw'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (TAAAC) ar y rhestr. Ailenwyd y tribiwnlys hwnnw yn Dribiwnlys Addysg Cymru drwy ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021. Mae gan y Tribiwnlys Addysg awdurdodaeth i benderfynu ar apeliadau ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu mewn ysgolion. Gall apeliadau gael eu cyflwyno gan neu ar ran plant oedran meithrin a phobl ifanc 16-25 oed.

1.6 Gweinyddir Tribiwnlysoedd Cymru gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n rhan o'r gwasanaeth sifil sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru ond sy'n ceisio bod mor annibynnol arni ag sy'n ymarferol, ac ymddangos felly.

1.7 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cynnwys dwy brif adran. Yn Adran 2, byddaf yn rhoi gwybodaeth ffeithiol (diweddariad) am nifer yr achosion, recriwtio a phenodi, traws-docynnu rhwng Tribiwnlysoedd Cymru a gyda Thribiwnlysoedd Lloegr, Cyfarwyddiadau Ymarfer, fy ngwaith ymgysylltu, trefniadau gwaith a chyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg yn y Tribiwnlysoedd. Yn Adran 3, byddaf yn disgrifio prif nodweddion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru a gyflwynwyd i Senedd Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ac i Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Ceir adran 4 gryno, sy'n rhoi cyfle i mi ddiolch i bawb a'm cynorthwyodd drwy gydol fy nghyfnod yn y rôl ac i gynnig rhai ystyriaethau.

## 2. Diweddariadau ar Adroddiadau Blynyddol Blaenorol

2.1 Nodir nifer y ceisiadau a gyflwynwyd i Dribiwnlysoedd Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2021-2022 a rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2022 yn y tabl isod. Nodir nifer y ceisiadau yn y blynyddoedd ariannol 2019-2020 a 2020-2021 hefyd er dibenion cymharu.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau i bob tribiwnlys**

Tribiwnlys	Blwyddyn Ariannol 2019-2020	Blwyddyn Ariannol 2020-2021	Blwyddyn Ariannol 2021-2022	Ebrill – Rhagfyr 2022	Gwrandawiaadau a gynhaliwyd yn Gymraeg Ebrill – Rhagfyr 2022
TTA Cymru	22	13	20	24	0
TAIM Cymru	1943*	1790	1840	1291	0
TEP	112	106	113	84	0
TAAAC/TAC	172	116	151	68	3
PDC	2	4	10	1	0
TyG	16	13	3	0	2

\* Yn hanesyddol, byddai data ar TAIM Cymru ar gyfer adroddiadau blynyddol yn dod o nifer o ffynonellau (â llaw ac yn electronig). Yn 2019-20, daw'r data ar nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a gafwyd o system rheoli cofnodion CRM TAIM Cymru, sy'n dileu'r risg o unrhyw wall dynol. O ganlyniad i'r newid hwn mewn dulliau adrodd, mae'n ymddangos fel pe bai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau at TAIM Cymru wedi lleihau, ond pe bai'r un fethodoleg wedi cael ei mabwysiadu mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n debyg y byddai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau yn debyg i'r rhai dros y blynyddoedd diwethaf.

2.2 Ceir rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wneir ac aelodaeth y tribiwnlysoedd yn eu hadroddiadau blynyddol unigol. Caiff pob adroddiad o'r fath ei gyhoeddi ar wefan pob tribiwnlys.

2.3 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22 penodwyd Dirprwy Lywydd TAAAC/TAC yn dilyn cystadleuaeth mynegi diddordeb a drefnwyd gan Lywydd TAC. Yn y flwyddyn ariannol 2022-23 penodwyd tri aelod cyfreithiol i TAC yn dilyn cystadleuaeth a weinyddwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Croesawodd TAIM Cymru gyfanswm o 53 o aelodau newydd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mai 2021 a 31 Rhagfyr 2022, sef 20 o aelodau lleyg, 19 o aelodau cyfreithiol a 14 o aelodau meddygol. Yn ystod yr un cyfnod, penodwyd 9 o aelodau cyfreithiol i TEP Cymru. Roedd llawer llai o benodiadau traws-docynnu yn ystod y cyfnod hwn. Ym mis Hydref 2021, awdurdodwyd aelod lleyg o TAIM Cymru i eistedd yn PDC. Ym mis Ionawr 2022, awdurdodwyd dau aelod lleyg o TAIM Cymru a PDC i eistedd yn TEP Cymru.

2.4 Mae'n werth nodi bod yr holl benodiadau cyfreithiol i Dribiwnlysoedd Cymru yn agored i ymarferwyr cyfreithiol sy'n ymarfer yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru. Yn ei hanfod, mae hynny am fod pob ymarferydd cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i ymarfer yn y ddwy wlad.

2.5 Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gystadleuaeth i benodi dau aelod lleyg cyflogedig llawn amser o TAIM Cymru. Cynhaliwyd y gystadleuaeth hon o ganlyniad i werthusiad gan Lywydd TAIM Cymru a minnau (gyda chymorth mawr gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru) ynghylch a oedd gwaith y Tribiwnlys hwn yn cyfiawnhau recriwtio aelodau cyfreithiol cyflogedig – a'r casgliad unfrydol oedd bod cyfiawnhad dros wneud hynny. Felly, roedd yn destun siom mai ychydig iawn a ymgeisiodd ac, ym marn y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, nad oedd modd penodi unrhyw un o'r ymgeiswyr.

2.6 Er gwaethaf cryn ddyfalu pam roedd y swyddi hyn wedi denu cyn lleied o ddiddordeb, nid oes gennyf unrhyw sylfaen dystiolaeth ddibynadwy i ddod i gasgliadau cywir. Yn gyffredinol, yn fy mhrofiad i, mae cystadleuaeth frwd am benodiadau barnwrol ym mhob un o bedair gwlad y DU, ond rwyf hefyd yn ymwybodol bod cystadlaethau unigol ar gyfer penodiadau barnwrol wedi cael eu cynnal yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru a Lloegr sydd wedi methu â denu llawer o ddiddordeb.

2.7 Er gwaethaf y cam gwag hwn, caiff cystadleuaeth arall i benodi dau aelod cyflogedig o TAIM Cymru ei lansio yn yr wythnosau nesaf. Yn y gystadleuaeth hon (yn wahanol i'r un ddiwethaf) gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais am swyddi a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wrando achosion sy'n ymwneud â chleifion dan gyfyngiadau yn ogystal ag achosion sy'n ymwneud â'r holl unigolion eraill sy'n gwneud ceisiadau i TAIM Cymru. Bwriadaf sicrhau bod y gystadleuaeth hon yn cael cyhoeddusrwydd eang, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymgeiswyr o safon addas yn ymgynnig.

2.8 Deuthum i'r casgliad y dylai'r swyddi cyflogedig sy'n cael eu hysbysebu fod wedi'u hanelu at ymgeiswyr a oedd yn addas i'w penodi i wrando achosion sy'n ymwneud â chleifion dan gyfyngiadau (yn ogystal ag ymgymryd â'r holl agweddau eraill ar waith TAIM Cymru) oherwydd dros y misoedd diwethaf, yn enwedig, bu cryn bwysau ar yr ychydig o'r aelodau cyfreithiol hynny o'r Tribiwnlys sydd wedi'u hawdurdodi i wrando achosion sy'n ymwneud â chleifion dan gyfyngiadau. Cymaint felly fel y penderfynais yn ddiweddar alw'r pŵer i rym (a ddirprwywyd i mi gan yr Arglwydd Brif Ustus) i awdurdodi'r aelodau cyfreithiol presennol o TAIM Cymru (nad oeddent wedi'u hawdurdodi i wrando achosion sy'n ymwneud â chleifion dan gyfyngiadau) i wrando achosion o'r fath. Gofynnais am ddatganiadau o ddiddordeb gan holl aelodau presennol TAIM Cymru, gan nodi fy mod yn ystyried awdurdodi hyd at bedwar aelod. Ymatebodd 11 o aelodau'r Tribiwnlys. Mae gennyf ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor am y rhai rwy'n bwriadu'u penodi, ac rwyf ar hyn o bryd yn aros am ei farn ef am yr ymgeiswyr yr wyf wedi nodi wrtho fy mod am eu penodi.

2.9 Ar 10 Mawrth 2022, codwyd yr oedran ymddeol ar gyfer holl aelodau tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr o 70 i 75.<sup>1</sup> Roedd y ddeddfwriaeth a ddygwyd y newid hwnnw i rym yn gymwys i holl aelodau Tribiwnlysoedd Cymru a oedd wedi'u llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ragflaenol a basiwyd gan Senedd y DU.<sup>2</sup> Tan 10 Mawrth 2022, roedd yn ofynnol i holl aelodau Tribiwnlysoedd Cymru (gyda rhai eithriadau) ymddeol yn 70 oed ond gallent gael eu hawdurdodi i "eistedd ar ôl ymddeol" yn flynyddol hyd at 75 oed. Roedd yn beth cyffredin i aelodau wneud cais i eistedd ar ôl ymddeol ac, yn dibynnu ar anghenion busnes eu tribiwnlys, cafodd llawer o aelodau eu hawdurdodi i eistedd y tu hwnt i 70 oed. Y person a oedd yn gwneud y penderfyniad ynglŷn ag eistedd ar ôl ymddeol oedd yr awdurdod penodi e.e. yr Arglwydd Ganghellor i aelodau TAIM Cymru.

---

1 Gweler Adran 121 ac Atodlen 1 i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022.

2 Deddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993.

2.10 Ar ôl i Ddeddf 2022 ddod i rym, mae'r trefniadau "eistedd ar ôl ymddeol" ond yn gymwys i aelodau cyfreithiol sydd o dan 75 oed ar ddyddiad eu hymddeoliad. Ni all aelod lleig nac aelod arbenigol o un o Dribiwnlysoedd Cymru eistedd unwaith y byddant wedi ymddeol os dewisant ymddeol cyn 75 oed. Os bydd aelod cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru yn ymddeol cyn 73 oed, gall wneud cais i eistedd ar ôl ymddeol a'r person sy'n gwneud y penderfyniad i awdurdodi eistedd ar ôl ymddeol yw Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae hon yn rôl newydd i'r Llywydd; rhoddwyd y pŵer gan Senedd y DU. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol pasio is-ddeddfwriaeth i ategu'r trefniadau eistedd ar ôl ymddeol o dan Ddeddf 2022. Caiff y rheoliadau hyn eu gwneud yn y man gan Brif Weinidog Cymru gyda chydysyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru – arwydd arall o bosibl o rôl gynyddol y Llywydd.

2.11 Ar ôl i Ddeddf 2022 ddod i rym, diddymwyd darpariaethau perthnasol o Ddeddf 1993. Roeddent yn cynnwys y darpariaethau ynglŷn ag eistedd ar ôl ymddeol yn Neddf 1993. Ar adeg diddymu, roedd cais am awdurdodiad i eistedd ar ôl ymddeol gan aelod lleig o TAIM Cymru yn bodoli ond ni chafodd ei ystyried gan yr Arglwydd Ganghellor. O ganlyniad, nid oes unrhyw fodd cyfreithiol sy'n ei galluogi i eistedd ar ôl ymddeol ac mae aelod profiadol iawn o'r Tribiwnlys sy'n siarad Cymraeg wedi cael ei golli.

2.12 Ers mis Ebrill 2021, rwyf wedi mynychu llawer o gyfarfodydd cyrff rwyf yn aelod ohonynt yn rhinwedd fy rôl fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rwy'n aelod o Fwrdd Gweithredol Barnwrol y Tribiwnlysoedd, y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol, Pwyllgor Cyngor Barnwyr Cymru a gadeirir gan yr Arglwydd Brif Ustus a Chyngor Cyfraith Cymru sydd newydd ei sefydlu. Fel yr esboniais yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, mae Bwrdd Gweithredol Barnwrol y Tribiwnlysoedd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob un o wledydd y Deyrnas Unedig a barnwyr yn unig sy'n aelodau. Mae'n fforwm pwysig iawn ar gyfer trafod gwneud penderfyniadau barnwrol mewn perthynas â'r prosesau i'w mabwysiadu ym mhob un o dribiwnlysoedd y DU. Yn naturiol ddigon, bu'n ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth am yr arferion gweithio y gallai Tribiwnlysoedd Cymru eu mabwysiadu er mwyn ystyried y cyfyngiadau a osodwyd i fynd i'r afael ag effaith y pandemig.

2.13 Mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol hefyd yn gorff i'r DU gyfan. Mae ganddo aelodaeth eang, yn cynnwys barnwyr, cyfreithwyr academiaidd, academyddion mewn meysydd sy'n gysylltiedig â chyfiawnder a gweinyddwyr. Mae pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru, un o gynrychiolwyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a minnau yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd. Mae'r Cyngor yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau manwl am bynciau o ddiddordeb sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r tribiwnlysoedd, yn ogystal â rhoi gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol sylweddol sy'n codi yn y tribiwnlysoedd. Corff cynghori yw Pwyllgor Cyngor Barnwyr Cymru, sy'n hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus am faterion sy'n berthnasol i Gymru. Mae ei aelodaeth yn cynnwys barnwyr ar bob lefel o ynadon lleig i'r Arglwydd Lloyd-Jones yn y Goruchaf Lys. Yn amlwg, materion sy'n codi yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF Cymru, a drafodir gan y Pwyllgor yn bennaf, ond rwyf hefyd yn cyflwyno adroddiad iddo ym mhob cyfarfod ar bob mater pwysig sy'n berthnasol i Dribiwnlysoedd Cymru, sydd weithiau yn ysgogi cryn drafodaeth. Megis cychwyn y mae Cyngor Cyfraith Cymru ond mae wedi dechrau gwaith ar brosiectau a fydd, o'u rhoi ar waith, yn fuddiol iawn i'r cyfreithiau a'r sefydliadau cyfreithiol sy'n datblygu yng Nghymru.

2.14 Mae pob un o'r cyrff hyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae aelodaeth pob un yn sicrhau bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru mewn sefyllfa dda iawn i gael gwybod am yr holl ddatblygiadau pwysig yn y tribiwnlysoedd ym mhob un o bedair gwlad y DU ac ym mhob mater sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

2.15 Rwy'n ymgynghori â Barnwyr Llywyddol Cymru yn ôl yr angen. Yn fwyaf diweddar, rwyf wedi ymgynghori â'r uwch farnwr llywyddol yngŷn ag aelodau o TAIM Cymru sydd hefyd yn farnwyr cylchdaith gweithredol sy'n golygu felly fod cyfyngiadau, o reidrwydd, ar eu hamser i eistedd yn TAIM Cymru. Rwy'n ofni bod cymaint o ofynion ar farnwyr cylchdaith sy'n gwrando achosion troseddol a theuluol y bydd ganddynt lai a llai o amser iddynt eistedd yn TAIM Cymru. Os caiff y broffwydoliaeth ddu honno ei gwireddu, bydd y Tribiwnlys yn colli aelodau cyfreithiol â phrofiad amhrisiadwy.

2.16 Rwyf wedi parhau i gadeirio cyfarfodydd chwarterol arweinwyr barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru. Y bwriad bob amser oedd i'r cyfarfodydd hyn roi'r cyfle i drafod materion o bryder i arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd unigol a/neu faterion o bryder i'r holl dribiwnlysoedd. Rwy'n gwbl sicr eu bod wedi llwyddo i gyflawni'r nod hwnnw. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i gael cyswllt uniongyrchol rhwng yr arweinwyr barnwrol fel grŵp ac uwch-aelodau o Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Pan wyf wedi cael gwahoddiad, rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd a diwrnodau hyfforddi a drefnwyd gan dribiwnlysoedd unigol.

2.17 Ar 1 Tachwedd 2021, ymddangosais fel tyst gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd. Gofynnwyd sawl cwestiwn manwl a oedd yn procio'r meddwl i mi. Wrth gwrs, mae fy atebion i'r gwahanol gwestiynau wedi'u cyhoeddi. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle i ymddangos ger ei fron ac rwy'n gobeithio ac yn disgwyl y byddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith eto cyn ymddeol.

2.18 Ar 23 Tachwedd 2021 cafodd fy Nhrydydd Adroddiad Blynyddol ei drafod yng Nghyfarfod Llawn y Senedd. Dyma'r ail achlysur i Adroddiad Blynyddol gael ei drafod yn y Senedd ac fel y digwyddodd ar yr achlysur cyntaf, roedd cyfraniadau aelodau o'r Senedd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn fy adroddiad. Roedd y drafodaeth yn eang iawn ei chwmpas o ran materion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru.

2.19 Cynhaliwyd fy nghyfarfod blynyddol olaf â'r Prif Weinidog ar 13 Hydref 2021. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y Cwnsler Cyffredinol a'i ysgrifennydd preifat hefyd yn bresennol gyda'r Prif Weinidog; Daeth Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru ac arweinydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru gyda mi. Yn naturiol ddigon, effaith y pandemig ar waith y tribiwnlysoedd a drafodwyd yn bennaf. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd drafod y posibilrwydd o benodi aelodau cyfreithiol cyflogedig llawn amser i TAIM Cymru, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru, rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â'r swydd honno. Bydd fy nghyfarfod olaf â'r Prif Weinidog yn cael ei gynnal ar 1 Chwefror 2023.

2.20 Dylwn nodi fy mod wedi cael trafodaethau mynych â phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru, trafodaethau mwy achlysurol â gweision sifil eraill, a, lle bo angen, cyfarfodydd â'r ddau gyfreithiwr yn Llywodraeth Cymru sydd â'r rôl benodol o roi cyngor cyfreithiol i mi, Uned Tribiwnlysoedd Cymru a, lle y bo angen, y tribiwnlysoedd unigol. Mae'r cymorth a roddwyd i mi gan yr holl bobl hyn wedi bod yn helaeth ac yn amhrisiadwy drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd.

2.21 Yn olaf, dylwn sôn am ddau gyfarfod "un tro" a gynhaliwyd yn 2022. Yn y gwanwyn, cyfarfûm â'r Arglwydd Wolfson CB, a oedd yn Weinidog Cyfiawnder Llywodraeth y DU ar y pryd, ynglŷn â Bil Hawliau arfaethedig i'r DU. Yn ystod y drafodaeth cefais lawer o wybodaeth, a chyfle hefyd i roi fy marn ar Bil o'r fath ar waith Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ystod yr haf, cyfarfûm â Chomisiynydd Cymru y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, Dr Barry Morgan, i drafod nifer o faterion a oedd yn ymwneud â phenodiadau i Dribiwnlysoedd Cymru.



2.22 Ers mis Mawrth 2020 fwy neu lai mae staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi bod yn gweithio gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cafodd niferoedd bach o'r staff eu dynodi'n weithwyr allweddol er mwyn ymdrin â phost y swyddfeydd yn ôl yr angen. Er bod modd gwneud llawer iawn o waith y Tribiwnlysoedd yn electronig, caiff copïau caled o rai dogfennau eu hanfon i swyddfeydd o hyd. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r unigolion sydd wedi gweithio mor hyblyg er mwyn cynnal holl wasanaethau'r tribiwnlysoedd er gwaethaf yr amgylchiadau anodd. Ymatebodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gyflym i ddod o hyd i ddulliau gwrandaw amgen yn lle gwrandawiau wyneb yn wyneb pan roddwyd y cyfyngiadau ar waith ym mis Mawrth y llynedd, fel y disgrifiais yn fy adroddiadau blaenorol.

2.23 Mae staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gweithio mewn swyddfeydd yn Llandrindod wedi cael eu hadleoli er mwyn i'r swyddfeydd yn adeilad presennol Cyngor Sir Powys gael eu hadnewyddu. Digwyddodd hyn ym mis Gorffennaf 2021. Pencadlysoedd TAC, TTA Cymru a PDC yw'r swyddfeydd hyn. Nid yw gwrandawiau yn cael eu cynnal yn y lleoliad hwn am nad yw'n briodol cynnal gwrandawiau mewn adeilad sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys ac a feddiennir yn rhannol gan y Cyngor o ystyried y gall gael ei gynnwys weithiau fel parti mewn achosion unigol. Gwrandawir achosion a gyflwynir gerbron TAC Cymru, TTA Cymru a PDC lle mae angen cynnal gwrandawiau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau sy'n diwallu anghenion y partion ac aelodau'r tribiwnlysoedd.

2.24 Yn y flwyddyn ariannol 2021-22 neilltuwyd cyllideb o £4,148,000.00 i Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Bwriadwyd i'r gyllideb honno ddarparu ar gyfer costau rhedeg y tribiwnlysoedd a chostau gweinyddol. Y gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn oedd £4,092,047.00.

2.25 Dyma'r ail flwyddyn ariannol yn olynol y bu'r gwariant yn llai na'r gyllideb. Fodd bynnag, roedd y tanwariant yn y flwyddyn ariannol hon yn fach o'i gymharu â'r tanwariant yn 2020-21. Gellir ei briodoli bron yn gyfan gwbl i'r defnydd o hyd o wrandawiau o bell. Mae gwrandawiau o'r fath yn anochel, yn llai costus i'w gweithredu heb ffioedd am ystafelloedd gwrandawiau ynghyd â symiau bach o dreuliau teithio i aelodau a staff y tribiwnlys.

2.26 Neilltuwyd cyllideb o £4,233,000 ar gyfer 2022-23. Ni allaf ragweld a gaiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn ai peidio. Ond fel yn achos y flwyddyn flaenorol, bydd llawer yn dibynnu ar y gymhareb rhwng gwrandawiau o bell a gwrandawiau wyneb yn wyneb. Mae'n sicr gennyf y bydd fy olynnydd yn darparu'r manylion priodol pan fydd yn paratoi ei adroddiad cyntaf.

2.27 Mae pob Tribiwnlys yn parhau i gynnig gwasanaeth Cymraeg llawn i'w ddefnyddwyr yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan yr hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

2.28 Er nad yw PDC yn ddarostyngedig i'r Safonau, mae'n gweithredu yn unol â'r tribiwnlysoedd eraill ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ym mhob un o'm hadroddiadau blaenorol, rhagfynegais ei bod yn debygol y byddai PDC yn dod yn ddarostyngedig i'r safonau, ond nid yw hynny wedi digwydd eto. Serch hynny, disgwylir o hyd y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos.

2.29 Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth Cymraeg yn parhau i fod yn isel iawn. Mae Tabl 1 uchod yn dangos i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn 5 gwrandawiad ar draws holl Dribiwnlysoedd Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn 2020-21 defnyddiwyd y Gymraeg mewn 20 o achosion ac yn 2021/22 cafwyd chwe achos.

# 3. Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac Ymatebion Iddo

3.1 Ar 8 Rhagfyr 2021, cyflwynodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar Dribiwnlysoedd Datganoledig i'r Senedd. Mae'n debyg i Gomisiwn y Gyfraith ddefnyddio'r ymadrodd Tribiwnlysoedd Datganoledig (yn hytrach na Thribiwnlysoedd Cymru) am fod ei gylch gorchwyl yn caniatáu i'r Comisiwn ystyried corff ehangach o dribiwnlysoedd a phaneli na'r rhai a bennwyd yn Dribiwnlysoedd Cymru yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, cynhaliodd y Comisiwn ymchwiliad manwl iawn. Mae'r adroddiad yn cynnwys 53 o argymhellion. Yn fy marn i, mae'n rhaid ei ddarllen yn llawn er mwyn deall ei wir bwysigrwydd.

3.2 Serch hynny, mae'n bwysig fy mod yn tynnu sylw at yr hyn a ystyriaf yn brif argymhellion y Comisiwn, sef:

- y dylai Tribiwnlysoedd Cymru a restrir gennyf uchod yn fy Nghyflwyniad gael eu disodli gan un Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, a all wedyn gael ei is-rannu'n siambrau;
- y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru ddod yn un o siambrau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf;
- y dylai apeliadau yn erbyn gwaharddiadau o'r ysgol gael eu gwranddo gan TAC;
- y dylai Tribiwnlys Apêl i Gymru gael ei greu i wrando a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn y Tribiwnlys Haen Gyntaf;
- mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddylai fod y barnwr llywyddol ar y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Apêl;
- y dylai Pwyllgor gweithdrefn Tribiwnlys gael ei greu a ddylai gael ei gadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru;
- y dylai Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru gael ei greu fel adran anweinidogol;
- y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth tribiwnlysoedd Cymru;
- y dylai fod yn ofynnol i bob aelod o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru dyngu llw barnwrol neu wneud datganiad barnwrol.

3.3 Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â'm hadroddiadau cynharach, fy ymatebion i adroddiad drafft Comisiwn y Gyfraith a'r datganiadau cyhoeddus a wnaed gennyf wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfansoddiad, Deddfwriaeth a Chyfiawnder yn gwybod fy mod yn gefnogol iawn i'r argymhellion a nodwyd gennych uchod. Serch hynny, rwyf yn cydnabod nad oedd dau o'r argymhellion hynny, yn benodol, wedi cael cefnogaeth pawb a ymatebodd i'r cynigion drafft yr ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith arnynt, sef y cynnig y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru ddod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac y dylai fod gan Gymru ei Thribiwnlys Apêl ei hun.

3.4 Rwyf yn cydnabod bod gan y Tribiwnlys Prisio ei strwythur a'i drefniadau gweinyddol ei hun sydd, ar hyn o bryd, dipyn yn wahanol i strwythur Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Cefais y pleser a'r anrhydedd o annerch diwrnod hyfforddiant blynyddol y Tribiwnlys yn hydref 2021 lle y gwnaeth rhai o'i aelodau fynegi'n glir eu gwrthwynebiad i fod yn rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Serch hynny, rwyf wedi cael fy argyhoeddi gan y rhesymau a roddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith y dylai'r Tribiwnlys Prisio ymuno â theulu Tribiwnlysoedd Cymru a pheidio â bod yn gorff ar wahân mwyach.



3.5 Mae creu Tribiwnlys Apêl i Gymru yn hanfodol yn fy marn i. Mae'r hawliau apelio a'r llwybrau apelio o Dribiwnlysoedd Cymru yn gymhleth ac yn ddryslyd. Byddai cyflwyno un llwybr apelio at dribiwnlys apêl sy'n cymhwyso'r un meini prawf i benderfynu ar apêl, ni waeth pa un o Dribiwnlysoedd Cymru y cyflwynir yr apêl yn ei erbyn yn welliant penodol ar y system dribiwnlysoedd yng Nghymru.

3.6 Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymateb i'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith mewn dogfen sy'n dwyn y teitl "Sicrhau Cyfiawnder i Gymru" a gyhoeddwyd ar 25 Mai 2022. Fel yr awgryma ei deitl, mae'r ddogfen yn un eang ei chwmpas; mae'n ystyried materion hollbwysig ynglŷn â sut y dylai cyfiawnder yn ei gyfanrwydd gael ei weinyddu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Pennod 9 yn ymdrin â safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Tribiwnlysoedd, gan gyfeirio'n benodol at Adroddiad Comisiwn y Gyfraith a'i argymhellion.

3.7 Mae'n amlwg o Bennod 9 o "Sicrhau Cyfiawnder i Gymru" bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi llawer o'r 53 o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad. Yn benodol, mynegir ei chefnogaeth i lawer mwy o annibyniaeth i Uned Tribiwnlysoedd Cymru, creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, creu Tribiwnlys Apêl i Gymru a chreu mwy o rôl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Tribiwnlys Prisio ddod yn rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ond mae'n cydnabod bod angen ymgynghori ymhellach ar y mater hwn. Mae'n werth nodi, er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhoi llawer mwy o annibyniaeth i Uned Tribiwnlysoedd Cymru, nad yw wedi ymrwymo i greu adran anweinidogol i weinyddu Tribiwnlysoedd Cymru.

3.8 Cydnabyddir yn eang, wrth gwrs, y bydd llawer a'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn gofyn am ddeddfwriaeth er mwyn eu rhoi ar waith. Rwyf ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Tribiwnlys cyn etholiadau nesaf y Senedd. Er nad fy lle i yw gwneud sylwadau ar yr hyn y gellid ei ddisgrifio'n agweddu gwleidyddol ar ddatganoli, mae'n amlwg i mi fod yn rhaid i lawer o'r diwygiadau a awgrymwyd gan Gomisiwn y Gyfraith fod yn sail i'r Bil er mwyn sicrhau bod Tribiwnlysoedd Cymru yn ffynnu fel sefydliadau datganoledig. Dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad drwy ddisgrifio sut roedd Tribiwnlysoedd Cymru wedi datblygu ar hap. Dyfynnaf:

*"Cafodd y rhan fwyaf [o'r dribiwnlysoedd] eu creu ar wahanol adegau yn yr 20fed ganrif, wrth i'r ffordd o feddwl am dribiwnlysoedd a'u perthynas â'r Llywodraeth ddatblygu. Cawsant eu creu cyn datganoli hefyd. O ganlyniad, mae eu prosesau a'u rheolau gweithdrefnol yn amrywio'n sylweddol, ac mae bylchau ac anghysondebau"*

3.9 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y disgrifiad hwnnw yn un cywir. Ymddengys fod cydnabyddiaeth amlwg mai dim ond deddfwriaeth briodol a all unioni llawer o'r anghysondebau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn system Tribiwnlysoedd Cymru.

## 4. Diolchiadau ac Ychydig o Sylwadau

4.1 Dylwn gofnodi ar goedd fy niolchiadau i holl aelodau Tribiwnlysoedd Cymru a holl aelodau staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru am eu gwaith caled yn ystod fy nghyfnod yn y rôl, yn enwedig, wrth gwrs, ers mis Mawrth 2020. Rwyf wedi cael cefnogaeth hael llawer gan bobl ac rwyf yn ddiolchgar iawn am hynny ac rwyf wedi mwynhau cydberthnasau gwaith da iawn â phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'i huwch staff. Credaf, er gwaethaf unrhyw wahaniaeth barn o bosibl, fy mod wedi meithrin cydberthnasau gwaith yr un mor dda ag arweinwyr barnwrol pob un o Dribiwnlysoedd Cymru.

4.2 Mae pob agwedd ar y systemau cyfiawnder sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig wedi wynebu heriau eithriadol o ganlyniad i bandemig COVID-19 a ddechreuodd o ddifrif ar ddechrau 2020. Gwnaeth Tribiwnlysoedd Cymru, a oedd mor gyfarwydd â chynnal pob un neu bron bob un o'u gwrandawiadau "wyneb yn wyneb", ymaddasu i ddulliau gweithio o bell yn gyflym ac mewn ffordd effeithlon ac maent wedi bod yn hynod fedrus mewn gwrandawiadau a oedd yn cael eu cynnal drwy lwyfan fideo neu ffôn. Yn sicr, un o'r tasgau pwysicaf i'm holynydd, a hefyd yr arweinwyr barnwrol, dros y misoedd sydd i ddod fydd taro cydbwysedd priodol rhwng gwrandawiadau o bell a gwrandawiadau "wyneb yn wyneb".

4.3 Hoffwn dalu teyrnged arbennig i ddau arweinydd barnwrol a fydd yn rhoi'r gorau i'w rolau cyn hir. Mae Ms Rhiannon Walker wedi gwasanaethu ers tua 20 mlynedd fel Llywydd TAAA Cymru ac yna TAC. Mae ei chyfraniad i ddatrys problemau addysgol llawer iawn o blant a phobl ifanc agored i niwed wedi bod yn sylweddol iawn. Mae ymgymryd â rôl arwain tribiwnlys am tua 20 mlynedd yn gyflawniad eithriadol. Rwyf ar ddeall ei bod yn ymddeol yng ngwir ystyr y gair. Yn ddi-os, bydd colled fawr ar ei hôl a hoffwn ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddi. Ms Claire Sharp yw Llywydd PDC ac mae wedi ymgymryd â'r rôl honno ers saith mlynedd. O dan ei harweinyddiaeth mae'r Panel wedi ymdrin â nifer o achosion anodd mewn ffordd ragorol. Ni fydd gwasanaeth Ms Sharp ym maes gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn dod i ben. Fe'i penodwyd yn Farnwr Cyflogaeth cyflogedig wedi'i lleoli yng Nghymru yn 2021 ac, yn naturiol, mae wedi dod i'r casgliad na all gyfuno rôl gyflogedig llawn amser fel barnwr cyflogaeth ag arwain PDC. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddi yn ei gyrfa lewyrchus.

4.4 Bu'n anrhydedd treulio'r chwe blynedd diwethaf o'm gyrfa farnwrol yn cyflawni rôl a oedd yn ymwneud â Chymru yn unig. Wedi dweud hynny, nid yw rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn un fewnblyg ac ni ddylai fod. Rwyf wedi dysgu cryn dipyn am waith tribiwnlysoedd drwy fy ymwneud â chyrrff ar lefel y Deyrnas Unedig megis Bwrdd Gweithredol Barnwrol y Tribiwnlysoedd a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol ac rwyf wedi cael budd mawr o barodrwydd cydweithwyr yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i rannu agweddau ar eu ffyrdd o weithio gyda mi. Mae fy ngwaith fel Llywydd, yn ddi-os, wedi "agor fy llygaid" i heriau datganoli ac wedi ennyn diddordeb mawr yn y trefniadau cyfansoddiadol sy'n llywodraethu'r Deyrnas Unedig. Byddaf yn dilyn y pynciau hyn gyda diddordeb mawr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

4.5 Bydd y pedair blynedd nesaf yn heriol i'm holynydd. Bydd angen iddo fod yn ymwybodol o'r holl agweddau ar ddiwygio'r tribiwnlysoedd yng Nghymru yn ogystal â'r heriau sylweddol o bosibl i TAIM Cymru, os bydd Senedd y DU yn deddfu deddfwriaeth newydd ynglŷn ag iechyd meddwl, yn ôl y disgwyl. Mae'r chwe blynedd diwethaf wedi bod yn amser da i fod Llywydd cyntaf Tribiwnlysoedd Cymru. Tybiwn y bydd y pedair blynedd nesaf hyd yn oed yn fwy diddorol.



**Syr Wyn Williams**  
**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3.1

## **SL(6)326 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023**

### **Cefndir a Diben**

Mae'r Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau Diystyriadau Disgownt") o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i sicrhau nad yw pobl o Wcráin sy'n symud ymlaen o fod yn preswyllo mewn llety o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU, neu nad ydynt yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw yn parhau i gael eu diystyru at ddibenion disgownt mewn perthynas â'u hatebolrwydd treth gyngor eu hunain. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Dosbarth H o'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i ddarparu nad yw'r diystyriad presennol ond yn gymwys pan fo person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu bod y Rheoliadau Diystyriadau Disgownt yn cael eu diwygio i sicrhau triniaeth gyson a theg â gwladolion eraill o Wcráin sydd wedi sicrhau eu fisa gan naill ai Cynllun Teuluoedd o Wcráin neu Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin, ac i sicrhau triniaeth gyson mewn perthynas â ffoaduriaid o wledydd eraill.

### **Gweithdrefn**

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

### **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**



Yn y rhaglith, enwir adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel pŵer galluogi. Fodd bynnag, ymddengys bod hyn yn anghywir gan nad yw adran 116(1) yn rhoi unrhyw bwerau a arferir gan Weinidogion Cymru wrth wneud y Rheoliadau hyn.

Mae adran 116(1) yn adran ddehongli gyffredinol sy'n cynnwys diffiniad o "prescribed" i olygu sy'n cael eu rhagnodi gan reoliadau. Fel arfer dim ond mewn troednodyn i gynorthwyo'r darllenydd y caiff y wybodaeth honno ei chynnwys, ac nid yw wedi'i dyfynnu yn y rhaglith – gweler SIP 3.11.15 i 3.11.17, a 3.11.22.

Felly, os caiff ei nodi yn y rhaglith, mae angen eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru.

### **Rhinweddau: craffu**

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**1 Mawrth 2023**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Tudalen y pecyn 39**

# Eitem 4.1

## **SL(6)327 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

### **Cefndir a Diben**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru – y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ("y Cod") yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r cysyniadau allweddol (neu'r "datganiadau o'r hyn sy'n bwysig") a nodir yn y Cod. Mae'n diweddarau ac yn disodli'r fersiwn wreiddiol o'r Cod a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2021 ("y Cod Gwreiddiol").

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn nodi'r chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir seilio eu cwricwlwm arnynt, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r Cod yn nodi 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes hynny. Rhaid i gwricwlwm a ddyluniwyd neu a fabwysiadwyd gan ysgolion a gynhelir a lleoliadau a ariennir, yn ogystal â'r dysgu ac addysgu cysylltiedig, gwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf.

### **Gweithdrefn**

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

### **Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7**

Nodwyd y 3 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7(i) mewn perthynas â'r Cod.

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Cod yn cadarnhau (ym mharagraff 2.1) bod Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddarau (ar ffurf drafft) y Canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar-lein tra'n aros i'r Cod diwygiedig gael ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd y canllawiau'n wreiddiol ar 28 Ionawr 2020 gan ymgorffori'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig fel y nodir yn y Cod Gwreiddiol.



Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Llywodraeth wrthi'n diweddarau'r canllawiau "*er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2022/23*".

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol (ym mharagraff 2.1) yn nodi y caiff y Cod ei gyhoeddi ar 28 Ebrill 2023, yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol ddrafft y Senedd.

Fodd bynnag, gosodwyd y Cod gerbron y Senedd ar 20 Chwefror 2023. Heb gyfrif cyfnodau o fwy na phedwar diwrnod lle mae'r Senedd ar doriad, neu wedi'i hamserlennu i fod ar doriad, y dyddiad cynharaf y caniateir i'r Cod gael ei gyhoeddi yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 76 o'r Ddeddf yw 29 Ebrill 2023.

3. Mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Cod, ac maent wedi'u rhestru yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail a'r trydydd pwynt adrodd.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Mawrth 2023



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 41

**Legislation, Justice and Constitution Committee**



## Atodiad

1. Ar dudalen 1 o'r testun Saesneg/tudalen 2 o'r testun Cymraeg, yn y cofnod ar gyfer "**Dogfennau Cysylltiedig**" ar waelod y dudalen, mae'r gair ar gyfer "guidance" ar goll o'r testun Cymraeg. Defnyddir "canllawiau" yn ddiweddarach ym mharagraff 1.5 o'r Cod fel y cyfieithiad Cymraeg ar gyfer "guidance" yn yr un cyd-destun.
2. Yn nhroednodyn (2) ar gyfer y pwynt bwled olaf ym mharagraff 1.4, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "children" a "pupil". Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio at "dysgwyr" a "dysgwr", sy'n golygu "learners" a "learner".
3. Ym mharagraff 1.5, mae cyfeiriad yn nhestun y ddwy iaith at "pages **4** to **15** of this Code" a "dudalennau **4** i **15** o'r Cod hwn". Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o ran rhifo'r testunau Cymraeg a Saesneg, gan fod tudalen 1 o'r testun Saesneg wedi'i rhifo fel tudalen 2 yn y testun Cymraeg. Felly, dylai'r testun Cymraeg ddweud "dudalennau **5** i **16** o'r Cod hwn" os yn dilyn rhifau'r tudalennau a geir ar hyn o bryd yn y testun Cymraeg.
4. Ym mharagraff 2.1.2, yn y testun Cymraeg, yn y paragraff olaf, cyfieithwyd "challenges" fel "ysgogi" sy'n golygu "inspire". Ym mhobman arall yn nhestun Cymraeg y Cod, mae wedi ei gyfieithu fel "herio" sy'n llythrennol yn golygu "to challenge".
5. Ym mharagraff 2.2.5, yn y testun Cymraeg, mae'r term "relationships" wedi'i gyfieithu fel "**cyd**berthnasau" (gan gynnwys ffurfiau wedi'u treiglo) ym mhobman yn y paragraff hwnnw ac eithrio yn y frawddeg agoriadol. Felly, mae'n ymddangos yn anghyson defnyddio gair ychydig yn wahanol, sef "perthnasau", yn y frawddeg honno ac yn awgrymu i ddarllenwyd y testun Cymraeg fod iddo ystyr gwahanol.
6. Ym mharagraff 2.3.4, yn yr ail baragraff, mae'r gair "**pluralistic**" yn y testun Saesneg wedi ei gyfieithu fel "lluosieithog" yn y testun Cymraeg. Fodd bynnag, mae "lluosieithog" yn golygu "**plurilingual**" ac fe'i defnyddir gyda'r ystyr hwnnw yn ddiweddarach ym mharagraffau 2.4.1 a 2.4.2 o'r testun Cymraeg.
7. Ym mharagraff 2.3.4, ym mrawddeg olaf yr ail baragraff, nid yw "diverse" yn yr ymadrodd "**diverse** history, cultural heritage,...." wedi'i gynnwys yn y testun Cymraeg.
8. Ym mharagraff 2.3.4, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn y pedwerydd paragraff. Mae'r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "**in the learners' own** locality" tra mai ystyr llythrennol y testun Cymraeg cyfatebol, sef "yn lleol", yw "locally". Felly, gellid dadlau bod y pwyslais ar "in the learners' own" ar goll o'r cyfieithiad oni bai ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth a awgrymir. Mae yna hefyd ychydig o fannau eraill yn y testun Cymraeg lle mae'n ymddangos bod y gair "dysgwr"



neu "learner" yn cael ei ystyried yn un a awgrymir yn hytrach na'i fod yn cael ei ddatgan yn benodol (fel ym mharagraff 2.5.4).

9. Ym mharagraff 2.3.5, yn yr ail baragraff, yn y testun Cymraeg, mae gwall teipio yn y geiriau sy'n cyfateb i'r ymadrodd "**in the** UNCRC and UNCRPD". Mae'r testun Cymraeg yn nodi "**i** dan" am y geiriau sy'n cyfateb i "in the" ac nid yw hynny'n gwneud synnwyr. Efallai mai'r bwriad oedd nodi "**o** dan" (sy'n cyfieithu'n llythrennol i "under the UNCRC and UNCRPD").
10. Ym mharagraff 2.5.1, yn y testun Cymraeg, mae ychydig o anghysondeb yn y cyfieithiad o "number system" a ddefnyddir yn y pennawd ac yn y paragraff cyntaf. Yn y pennawd, defnyddiwyd "system rif" fel y cyfieithiad, ond yn y paragraff cyntaf, defnyddiwyd "system rifo".
11. Ym mharagraff 2.6.1, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y paragraff cyntaf, mae geiriau agoriadol trydedd frawddeg y testun Saesneg yn datgan "Developing and testing models...". Ond mae'r testun Cymraeg cyfatebol wedi ychwanegu'r ansoddair "defnyddiol", sy'n golygu "useful" ar ôl "modelau" fel mai'r ystyr sy'n cael ei gyfleu yw "Developing and testing **useful** models....".
12. Ym mharagraff 2.6.1, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "regarding **the climate and nature emergency**" ond mae'r testun Cymraeg wedi'i gyfieithu fel "ynghylch newid yn yr hinsawdd" sy'n golygu "regarding **climate change**".
13. Ym mharagraff 2.6.5, yn y frawddeg olaf, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "responsible citizens **of Wales and the world**". Fodd bynnag, mae'r geiriau "of Wales and the world" ar goll o'r testun Cymraeg.
14. Ym mharagraff 2.6.6, yn y bedwaredd frawddeg, mae geiriau agoriadol y testun Saesneg yn datgan "To create and use **digital** technologies...." ond mae'r gair "digital" ar goll o'r testun Cymraeg.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
[SeneddLJC@senedd.cymru](mailto:SeneddLJC@senedd.cymru)

6 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

## Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Ionawr ac yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, i adrodd ar gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo a gynhaliwyd ar 1 Chwefror. Roeddwn wedi gobeithio rhoi gwybod ichi am eitemau'r agenda cyn y cyfarfod, ond yn anffodus ni ddaethant i law tan 48 o oriau cyn i'r cyfarfod ddechrau, ac nad oedd hynny'n caniatáu digon o amser. Rwy'n gobeithio y daw'r arfer o rannu dogfennau mewn modd amserol yn norm yn y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol hwn.

Roedd y Gwir Anrh. Suella Braverman KC Aelod o Senedd San Steffan, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban, Neil Gray ASA, a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, Dr Jayne Brady yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod, ail-bwysleisiais ffocws Llywodraeth Cymru ar atal troseddu, gan groesawu'r cyfle a ddarperir gan y Grŵp Rhyngweinidogol hwn i rannu'r arferion gorau.

Hefyd, roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod ein barn ar y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau newydd, ac awgrymais y dylai cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ganolbwyntio ar wella mynediad i lwybrau mudo diogel a chyfreithiol. Mynegais bryderon Llywodraeth Cymru am bolisi presennol Llywodraeth y DU sy'n atal ceiswyr lloches rhag chwilio am gyflogaeth, a'r problemau llety sy'n parhau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 44  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mai, a byddaf yn rhoi gwybod ichi unwaith y bydd dyddiad wedi ei bennu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 1 February 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/interministerial-group-for-safety-security-and-migration-communiqué-1-february-2023).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first few letters.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## YSGRIFENEDIG DATGANIAD GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo  
**DYDDIAD** 06 Mawrth 2023  
**GAN** Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, dyma roi gwybod fy mod wedi mynychu cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 1 Chwefror, gan ddod ag aelodau o'r pedair llywodraeth at ei gilydd.

Mynychwyd y cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman CB AS, fel y Cadeirydd, a Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban, Neil Gray ASA. Yn absenoldeb Gweinidogion yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon, roedd Dr Jayne Brady, Pennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, hefyd yn bresennol.

Yn ystod y cyfarfod, ailbwysleisiais ffocws Llywodraeth Cymru ar atal troseddau gan groesawu'r cyfle y mae'r Grŵp Rhyngweinidogol hwn yn ei gynnig o ran rhannu arferion gorau. Amlinellais fy ngwaith gyda'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, a'm rôl fel Cydgadeirydd, gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dafydd Llywelyn, ar gyfer ein Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae gan y bwrdd hwn gylch gwaith eang gan gynnwys trais yn y cartref, y gweithle ac mewn mannau cyhoeddus. Ailadroddais ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllido swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ymhellach, ledled Cymru.

Nodais yr angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gael gwybod yn gynnar gan Lywodraeth y DU am ddatblygiadau i Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau, a phwysleisiais yr angen am drafodaethau brys a pharhaol ynghylch llwybrau mudo diogel a chyfreithiol i'r DU. Awgrymais y dylai llwybrau mudo diogel a chyfreithiol fod yn eitem bwysig ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol.

Mynegais fy niddordeb yng Nghynllun Peilot Fisa Gwledig yr Alban.

Bu trafodaeth ynghylch Gwasgaru Ceiswyr Lloches. Tynnais sylw at y pwysau a roddwyd ar Awdurdodau Lleol Cymru a'r effaith negyddol roedd y gostyngiad yn y tariff ar gyfer y Cynllun Adsefydlu Pobl Wcráin wedi'i chael ar gydlyniant cymunedol. Mynegais ein siom ym mholisi Llywodraeth y DU sy'n atal ceiswyr lloches rhag cael swyddi. O ystyried y prinder gweithwyr parhaus mae hyn yn niweidiol i'r economi. Esboniais hefyd fod gan Lywodraeth Cymru strategaeth ar waith i ddarparu llety trosiannol ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion tai yng Nghymru, ac y byddai'n fuddiol os gellid cynnal trafodaethau cyn i Lywodraeth y DU gaffael gwestai yng Nghymru ar gyfer llety brys.

Croesawais y drafodaeth ar rai agweddau ar Ddiogelwch Cartref.

Mae cyd-hysbysiad byr wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn:

[Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 1 February 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/interministerial-group-for-safety-security-and-migration-communiqué-1-february-2023) (Saesneg yn Unig)

# Eitem 5.2

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref 2023/01/25 IGR

Huw Irranca-Davies MS,  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

7 Mawrth 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol. Fe wnaeth fy llythyr blaenorol eich gwneud yn hysbys y byddai cyfarfod o Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr ac mai fi fyddai'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Rwy'n ysgrifennu nawr er mwyn rhoi diweddariad i chi yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n cynnwys Cyd-hysbysiad y cytunwyd arno o'r cyfarfod, sydd ar gael yma

<https://www.gov.uk/government/publications/communiques-from-the-interministerial-group-for-elections-and-registration/interministerial-group-for-elections-and-registration-communique-25-january-2023>].

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales](mailto:Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 48



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG ERBYN LLYWODRAETH CYMRU

---

<b>TEITL</b>	<b>Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>07 Mawrth 2023</b>
<b>ERBYN</b>	<b>Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad</b>

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf gadarnhau wrth Aelodau'r Senedd fy mod wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 25 Ionawr.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithiol a'i gadeirio gan Lee Rowley AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Hefyd yn bresennol roedd George Adam ASA, Y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth Yr Alban a Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon Llywodraeth y DU.

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i glywed diweddariad gan Lywodraeth y DU ar weithredu Deddf Etholiadau 2022 ac ar ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ddiwygio etholiadol, yn ogystal â rhoi ddiweddariad ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol.

Cyhoeddwyd [Datganiad](#) ar y cyd ynghylch y cyfarfod ar 3 Mawrth 2023 (dolen allanol, Saesneg yn unig).

Rydym yn parhau i gydweithio a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter gyda threfniadau cadeirio sy'n cylchdroi. Byddaf yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau.





## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023
DYDDIAD	13 Mawrth 2023
GAN	Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd

### Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023")

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i DEFRA arfer pŵer cydredol i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ar 11 Ionawr 2023, ceisiwyd cytundeb gan yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023. Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys o ran Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mae Rheoliadau 2023 wedi eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 36(1)(b) a (c) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sef Rheoliad y Cyngor (EU) 2020/123 (EUR 2020/123) mewn perthynas â rheoleiddio pysgodfeydd draenogiaid môr, cynyddu'r sgil-ddalfa a ganiateir yn unol â chyngor gwyddonol, yn ogystal â chysoni'r tymor caeëdig ar gyfer pysgotwyr masnachol a physgotwyr hamdden. Mae cŵn pigog (*spurdog*) sy'n 100cm o ran hyd neu yn llai na hynny yn cael eu tynnu o'r rhestr o rywogaethau gwaharddedig sydd wedi'i chynnwys yn Erthygl 16 o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123 (EUR 2020/123) er mwyn rhoi canlyniad Ymgynghoriad Pysgodfeydd 2022 yr UE-DU ynghylch cyfleoedd pysgota ar waith yn 2023. Yn ogystal â hynny, er mwyn gweithredu mesurau y cytunwyd arnynt yn Ardal Confensiwn y Comisiwn Rhyngwladol dros Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (ICCAT), mae'r rhestr o rywogaethau gwaharddedig sydd wedi'i chynnwys yn Erthygl 16 wedi ei diwygio er mwyn ychwanegu morgwn trwynfain (*Isurus oxyrinchus*) yn nyfroedd y Deyrnas Unedig a dyfroedd rhyngwladol ardal ICCAT.

Rhoddwyd cydsyniad gan fod y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer canlyniad y trafodaethau rhyngwladol, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng gweinyddiaethau'r pysgodfeydd, ac mae'n cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU mewn perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac aelodaeth y DU o ICCAT. Yn ogystal â hynny, mae'r mesurau sy'n perthyn i ddraenogiaid môr yn gymwys i bysgodfa a rennir sy'n gweithredu o fewn Parth Cymru a'r tu hwnt iddo. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn gymwys ar sail y DU a bod yn gymwys i'r holl gychod sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.

Gosodwyd Rheoliadau 2023 gerbron Senedd y DU ar 08/03/23 a byddant yn dod i rym ar 01/04/23.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George AS/MS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)

27 Chwefror 2023

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr mewn perthynas â goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwyf am ateb eich cwestiynau yn y drefn y cawsant eu gofyn.

## **Materion trosfwaol a nodi cyfraith yr UE a ddargedwir**

### ***Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.***

Rwyf o'r un farn â Llywodraeth Cymru yn gyffredinol ac yn gwrthwynebu'r dull sy'n cael ei ddilyn gan y Bil. Yn gyffredinol, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ac yn cynnig amddiffyniadau hanfodol ar draws gwahanol agweddau ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys hawliau gweithwyr, mesurau diogelu'r amgylchedd a mesurau diogelu iechyd y cyhoedd. Ar adeg pan ddylai'r llywodraethau yn y DU fod yn canolbwyntio ar faterion pwysicach fel yr argyfwng costau byw, mae'r Bil yn mynnu cryn dipyn o sylw.

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn ffurfio rhan bwysig o'r fframwaith cyfreithiol sy'n sylfaen i amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'm portffolio i. Mae'r pryderon cyffredinol am oblygiadau posibl y Bil yn berthnasol felly i gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Mater sy'n destun pryder neilltuol yw'r terfyn amser a osodir gan y Bil ar gyfer adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir cyn 31 Rhagfyr 2023, sef y dyddiad machludo. O ganlyniad, pennir amserlen ddiangen a mympwyol ar gyfer adolygu corff cyfan o gyfraith, sy'n peri risg y bydd amddiffyniadau cyfreithiol pwysig yn cael eu tynnu o'r llyfr statud ar y dyddiad hwn, a hynny heb graffu'n briodol.

O safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu amddiffyniadau pwysig sydd wedi datblygu dros gyfnod sylweddol o amser. Wrth ymateb i'r Bil dros y flwyddyn sydd i ddod, sicrhau bod safonau ac amddiffyniadau allweddol yn cael eu cynnal i'r graddau y bo hynny yn bosibl fydd fy mlaenoriaeth i.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Cwestiwn 2: Rydym yn nodi bod dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir Llywodraeth y DU ond yn cynnwys cyfreithiau a wnaed gan Weinidogion y DU. A allech roi rhestr inni o gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.***

Mae'r dangosfwrdd a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gysylltiedig â nifer o feysydd polisi iechyd, gan gynnwys rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a sylweddau sy'n tarddu o fodau dynol, yn ogystal â chrynodiad uchel sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd. Mae'n bwysig cofio hefyd mai proses ailadroddol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer nodi cyfraith yr UE a ddargedwir. Adolygir y dangosfwrdd yn barhaus felly. Mae'r rhestr bresennol yn cynnwys enghreifftiau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i chadw yn ôl ac sydd wedi'i datganoli. Mae fy swyddogion i'n parhau i weithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar y dadansoddiad hwn ac i bennu'r union fanylion i ganfod a ydy offerynnau yn berthnasol i Gymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli.

Yn ogystal â darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel adran arweiniol Llywodraeth y DU, yn gyfrifol amdanynt, mae'n bwysig cofio y bydd cyfraith o'r fath mewn meysydd eraill, fel rheoleiddio amgylcheddol, hefyd yn berthnasol i'm portffolio i. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â datblygiadau allweddol o rannau eraill o'r Llywodraeth pan fydd buddiant polisi iechyd a gofal cymdeithasol amlwg.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith sylweddol hefyd i sicrhau ein bod yn nodi'r holl ddarnau perthnasol o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'u gwneud yng Nghymru (ac nad ydynt felly yn cael eu cofnodi ar ddangosfwrdd Llywodraeth y DU). Offerynnau statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru i drosi Cyfarwyddebau gan yr UE yn gyfraith Cymru fydd y rhain yn bennaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir o'r fath, gan dynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ac mae'n cynnwys cymorth gan yr Archifau Gwladol. Nid oes rhestr lawn ar gael eto ond byddaf yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am hyn maes o law.

**Penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir**

***Cwestiwn 3: Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 5 Rhagfyr 2022 fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu proses frysbennu i lywio ei phenderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. A allech nodi pa ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, neu ba feysydd polisi sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft iechyd y cyhoedd neu labelu bwyd) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu blaenoriaethu i'w hystyried yn y broses brysbennu.***

Ar hyn o bryd, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu amddiffyniadau pwysig ar draws amrediad o faterion rheoleiddio. Er bod yr amserlen fypwyol a orfodir gan Fil Llywodraeth y DU yn golygu y bydd angen blaenoriaethu, rwyf hefyd yn dra ymwybodol bod pob darn penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn ei rinwedd ei hun. Wrth fynd ati i ymdrin â'r mater hwn, lleihau'r risg y gallai amddiffyniadau pwysig gael eu colli fydd fy mwriad, a byddwn hefyd yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau na fydd safonau yn cael eu lleihau.

Hyd nes y bydd y gwaith y cyfeirir ato o dan Gwestiwn 2 uchod wedi'i gwblhau, mae'n rhy gynnar inni glustnodi un mater polisi penodol i'w ystyried fel blaenoriaeth. Byddwn mewn sefyllfa i flaenoriaethu yn effeithiol pan fydd gennym ddarlun mwy cyflawn gyda'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys pa ddarnau penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir yn

union y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu cael gwared arnynt neu eu diwygio. Fodd bynnag, ar y cam cynnar hwn, gallaf gadarnhau mai darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y nodwyd bod y cysylltiad agosaf rhyngddynt â mesurau diogelu iechyd y cyhoedd fydd flaenaf yn fy meddwl i wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo dros y misoedd sydd i ddod.

***Cwestiwn 4: A allech gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn y Bil i ddiogelu'r safonau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol sydd o fewn cymhwysedd.***

Wrth ystyried cyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, sicrhau ein bod yn lleihau'r risg y bydd amddiffyniadau cyfreithiol pwysig yn cael eu tynnu oddi ar y llyfr statud ddiwedd y flwyddyn hon fydd fy mlaenoriaeth gyffredinol. Fy safbwynt cychwynnol yw y dylai'r mwyafrif o gyfraith yr UE a ddargedwir gael ei chadw / ei chymhathu, i'r graddau y bo hynny yn bosibl, ac y dylid gallu darparu tystiolaeth glir i gyfiawnhau unrhyw gynlluniau ar gyfer newid. Nid wyf yn bwriadu lleihau safonau mewn meysydd pwysig lle y mae cyfrifoldeb rheoleiddio wedi'i ddatganoli. Cadw'r safonau y byddwn i'n dueddol o'i wneud, ond mae angen ystyried y mecanwaith ar gyfer sut yn union y byddai cyflawni hynny.

Er gwaetha'r safbwynt cychwynnol clir hwn, wrth ystyried darnau unigol o gyfraith yr UE a ddargedwir, mae'n bwysig nodi hefyd nad yw Cymru yn gweithredu mewn gwagle o safbwynt rheoleiddiol. Felly, bydd yn bwysig ystyried y dulliau sy'n cael eu cymryd mewn rhannau eraill o'r DU. Os oes newidiadau i'r status quo yn cael eu hystyried y tu allan i Gymru, bydd yn bwysig deall cymaint â phosibl am oblygiadau naill ai cyd-fynd â'r safbwyntiau sy'n cael eu cymryd mewn mannau eraill, neu ymwahanu oddi wrthynt. Mae'r cyfyngiadau amser a osodir gan y Bil yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni hyn, ond mae'n dal i fod yn ystyriaeth bwysig er mwyn sicrhau bod fframweithiau cyfreithiol yn parhau yn addas i'r diben a'u bod yn gallu gweithredu'n effeithiol yn y dyfodol.

***Cwestiwn 5: Sut y byddech yn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid fel Confederasiwn GIG Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd y gallai safonau ac amddiffyniadau pwysig sy'n ymwneud â materion fel iechyd y cyhoedd a labelu bwyd gael eu colli yng Nghymru os na chaiff rheoliadau eu harbed neu eu diwygio.***

Ar y cyfan, rwy'n cydnabod ac yn rhannu'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid allweddol. Mae'r risg y gellid colli amddiffyniadau pwysig, naill ai'n anfwriadol neu fel rhan o agenda 'ddad-reoleiddio' ehangach Llywodraeth y DU, yn rhan bwysig o'r sail resymegol ar gyfer gwrthwynebiad chwyrn Llywodraeth Cymru i'r Bil.

Ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar liniaru'r mathau o risgiau a godwyd gan randdeiliaid. Bydd ein bwriad i gadw / cymhathu cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli, fel yr amlinellir yn gynharach yn yr ymateb hwn, yn elfen allweddol o hyn. O ran cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n glir ei bod o fewn cymhwysedd datganoledig, cynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n berthnasol i Gymru yw ein dymuniad ni oni bai bod rhesymau da iawn dros beidio â gwneud hynny, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r safbwynt hwnnw wrth inni ymgysylltu â Llywodraeth y DU.

Wrth ystyried sut i leihau'r risgiau i'r graddau y bo hynny yn bosibl, byddwn yn awyddus i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft i sicrhau bod holl gyfraith Cymru sy'n ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cwrmpas y Bil yn cael ei nodi a'i hystyried. Gan fod swm sylweddol o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dod o fewn ei meysydd cyfrifoldeb, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith hwn, ac mae swyddogion yr Asiantaeth a

Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos ar ddatblygu rhaglen waith benodol yn y maes polisi hwn.

***Cwestiwn 6: A allech nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y goblygiadau hirdymor i iechyd a lles y boblogaeth wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir.***

Er fy mod yn credu bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol, rwy'n derbyn y gall fod rhai achosion pan fydd yn briodol gwneud newidiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth ystyried unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau posibl, mae'n bwysig yn gyntaf inni gael dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau, yn y tymor byr a'r tymor hir. Nid yw'r amserlenni a osodir gan Fil Llywodraeth y DU fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn ddigonol i ganiatáu i'r gwaith manwl hwn gael ei wneud. Felly, yn fy marn i, mae newidiadau yn cael eu gwthio drwodd yn gyflym gan beri'r risg y ceir canlyniadau anfwriadol.

Mae'r dull y byddwn i'n ei ddewis, o gynnal cyfraith yr UE a ddargedwir i'r graddau y bo hynny yn bosibl i ddechrau yn ceisio lliniaru'r risg hon gan gynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i ystyried meysydd i'w diwygio o bosibl yn y dyfodol mewn ffordd fwy cyfrifol. Nid yw ystyried diwygiadau rheoleiddiol yn rhywbeth y dylid ei gyflawni yn unol ag amserlen fymrwyl. Yn hytrach, dylid mynd ati mewn ffordd wedi'i rheoli ac yn unol ag amserlen sy'n golygu bod modd dadansoddi'r goblygiadau posibl yn llawn, gan ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid yn effeithir arnynt.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

***Cwestiwn 7: A allwch amlinellu sut y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhan o'r prosesau brysbennu cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai darnau o gyfraith gael eu harbed, eu diwygio neu eu dileu yn unol â'r terfyn amser o 31 Rhagfyr 2023 a nodir yn y Bil.***

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, fy mlaenoriaeth wrth ymateb i Fil Llywodraeth y DU fydd cynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli i'r graddau y bo hynny yn bosibl, er mwyn lleihau'r risg y caiff amddiffyniadau pwysig eu colli o'r llyfr statud ddiwedd y flwyddyn hon. Bydd hwn yn ymateb ymarferol sydd, i bob pwrpas, yn golygu cynnal cymaint o'r status quo ag y gallwn, ond bydd hefyd yn cynnig inni yr hyblygrwydd i ystyried diwygio dros gyfnod hwy o amser yn y dyfodol.

Mae'r amserlen a orfodir gan Fil Llywodraeth y DU yn debygol o gyfyngu ar gyfleoedd posibl i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol, a thrwy geisio cynnal y status quo i'r graddau y bo hynny yn bosibl byddwn yn canolbwyntio ar liniaru'r hyn yr ydym yn ei ystyried yw'r risg fwyaf yn y tymor byr. Byddwn wrth reswm yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru cymaint â phosibl yn yr amser fydd ar gael. Pan fyddwn yn ystyried blaenoriaethau ar gyfer newid yn y dyfodol, gwneud hyn yn unol ag amserlen fwy realistig, sy'n golygu y bydd modd inni gynnwys y sector yn llawer llawnach, fyddai ein bwriad.

***Cwestiwn 8: A wnewch chi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried eu barn drwy gydol y broses hon.***

Mae fy null arfaethedig o gynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys yng Nghymru i'r graddau y bo hynny yn bosibl yn ceisio cynnal y status quo cymaint ag y gallwn, yn y tymor byr o leiaf. Mae hyn yn lliniaru'r risg fwyaf yn y tymor byr y gellid colli amddiffyniadau pwysig o'r llyfr statud ddiwedd y flwyddyn hon.

Mae'n anochel y bydd yr amserlenni a osodir gan Fil Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar y cyfleoedd posibl i ymgysylltu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan ddibynnu ar yr amser fydd ar gael inni allu gwneud hynny. Pan fydd newidiadau neu ddiwygiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried dros gyfnod hwy o amser, gofynnir am farn rhanddeiliaid yn llawnach fel rhan o brosesau datblygu polisi cyffredinol.

## **Trefniadau gweithio rhynglywodraethol**

***Cwestiwn 9: A allech ddarparu gwybodaeth am unrhyw drafodaethau yr ydych chi neu'ch Dirprwy Weinidogion wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar iechyd a gofal cymdeithasol, neu ynghylch sut y byddai unrhyw newidiadau i gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir yn cael eu cydgysylltu pe bai'r Bil yn cael ei basio.***

Ar wahân i iechyd, mae trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y pryderon cyffredinol ynghylch y Bil ar ei ffurf bresennol. Rwy'n disgwyl y bydd y trafodaethau hyn yn ymdrin â materion fel mecanweithiau cydgysylltu a chydysynio wrth i ddull arfaethedig Llywodraeth y DU ddod yn gliriach.

Mae'r trafodaethau a gafwyd hyd yma gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi'u cynnal ar lefel swyddogion, ac maent wedi cynnwys trafodaeth ynghylch nodi darnau perthnasol o gyfraith yr UE a ddargedwir ac ystyried y cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau sydd wedi'u cadw yn ôl a'r rhai hynny sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn disgwyl y byddai angen cynnal trafodaethau ar lefel Weinidogol hefyd ar adegau penodol yn ystod y broses.

Gallaf hefyd gadarnhau mai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (sydd â chyfrifoldeb dros nifer sylweddol o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir).

***Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â threfniadau eraill ar ôl Brexit sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol, megis fframweithiau cyffredin, Deddf y Farchnad Fewnol 2020 neu gytundebau masnach.***

Mae amrywiaeth o ryngddibyniaethau posibl rhwng cyfraith yr UE a ddargedwir a threfniadau eraill. Mae hyn eto yn arwydd o'r cymhlethdod ynghylch y materion hyn ac mae'n pwysleisio'r risg y gallai'r Bil yn anfwriadol danseilio agweddau eraill ar y dirwedd ddeddfwriaethol, polisi a rheoleiddiol ehangach. Mae'r cymhlethdodau hyn yn atgyfnerthu fy marn gyffredinol mai dim ond dros amserlen hwy nag y mae Bil y DU ar ei ffurf bresennol yn ei darparu y dylid ystyried gwneud newidiadau sylweddol i gyfraith yr UE a ddargedwir.

